# Gwasanaeth Seicoleg Addysgol Sir Fynwy

monmouthshire
sir fynwy



**Beth mae pobl yn ei hoffi a'i edmygu amdanom...**

Mae pobl yn dweud wrthym ein bod yn agos atynt a bod ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn ddefnyddiol.
Rydym yn gyfeillgar a phroffesiynol a byddwn yn gwrando ar farn pawb.

**Yr hyn sy'n bwysig i ni...**

- Gweithio ar y cyd ac mewn ffordd ataliol, gan gadw seicoleg yn greiddiol a bod yn hyblyg a medru addasu
- Eirioli dros y bregus
- Cael caniatâd gwybodus i weithio gyda phlant a phobl ifanc
- Deall yr hyn sy'n bwysig i blant, pobl ifanc, ysgolion a theuluoedd
- Bod y bobl sy'n gofyn i ni gymryd rhan yn ymwneud yn llawn gyda ni
- Cadw'n gyfredol gydag ymchwil am anghenion plant a phobl ifanc
- Cyfathrebu'n dda gyda'r rhai yr ydym yn gweithio gyda nhw
- Adborth cadarnhaol ac adeiladol.

**Yr hyn y gallem geisio ei wneud i helpu...**

- Arsylwi plant yn y lleoliad addysg
- Cynnal cyfarfodydd ymgynghori gyda staff i wneud cynlluniau i helpu plant a phobl ifanc.
- Ymgynghori ar y cyd gyda'r ysgol/teulu i wneud cynlluniau.
- Cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses.
- Gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc.
- Cyfrannu at adolygiadau.
- Hyfforddi staff i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.
- Rhoi goruchwyliaeth i staff mewn ysgolion (Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol).